

# Rhaglen **Arweinyddiaeth** Wleidyddol CYMRU

**Dydd Mawrth 2 a**
**Dydd Mercher 3 Rhagfyr**
2025

Coleg Nyrsio Brenhinol
Cymru
Royal College of Nursing
Wales


# Rhaglen **Arweinyddiaeth** Wleidyddol CYMRU

**Dydd Mawrth 2 a Dydd Mercher 2 Rhagfyr**

2025

Bydd y cwrs hwn yn apelio at y rhai hynny sy'n dymuno:

- **deall sut y mae gwleidyddiaeth yn dylanwadu ar bolisi gofal iechyd**
- **dylanwadu ar newid i bolisïau iechyd neu gymdeithasol**
- **datblygu strategaethau i lunio polisïau**
- **deall cyd-destun polisi a deddfwriaethol datganoli**
- **ennill cefnogaeth gan randdeiliaid allanol**
- **gwella eu sgiliau arweinyddiaeth**



Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar frig yr agenda wleidyddol yng Nghymru. Ceir ymgyrch polisi gref i ail-lunio gwasanaethau yn y gymuned a darparu gofal iechyd a chymdeithasol di-dor. Mae dewisiadau anodd o flaen y gwasanaethau cyhoeddus ar yr adeg hon o lymder, wrth i raglen uchelgeisiol o ddeddfwriaeth Cymru osod nodau newydd ar gyfer polisïau iechyd a chymdeithasol.

*Nod cyffredinol y cwrs hwn yw datblygu unigolion, timau a sefydliadau er mwyn iddynt ddylanwadu ar faes iechyd, polisïau iechyd a gofal iechyd.*

Mae'r rhaglen yn edrych ar sut y mae'r amgylchedd gwleidyddol yn gosod y cyd-destun ar gyfer ymarferwyr unigol a sefydliadau, a bydd yn ehangu eich gwybodaeth am sut y caiff polisïau iechyd a chymdeithasol eu llunio yng Nghymru. Bydd yn annog y cyfranogwyr i ymgysylltu â pholisïau strategol, ac yn darparu'r dulliau iddynt gael gwneud hyn a dylanwadu ar yr agenda ehangach.

Wrth gymryd rhan yn Rhaglen Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru ar gyfer Arweinyddiaeth Wleidyddol, byddwch yn gwrando ar siaradwyr gwadd dylanwadol ac uchel eu parch a ddetholwyd yn ofalus o blith amrywiaeth o wleidyddion presennol a chyn-wleidyddion, yn ogystal ag arweinwyr ym maes nyrsio. Caiff y rhaglen ei chyflwyno dros ddau ddiwrnod ar ôl ei gilydd, gan ddefnyddio dull dysgu cyfunol a fydd yn cynnwys trafodaethau rhyngweithiol a gweithdai ymarferol.

**Sylwadau Cyfranogwyr Blaenorol:**

“Rhaglen ragorol. Rwy'n teimlo'n freintiedig fy mod i wedi cael y cyfle i wrando ar y siaradwyr ac nid yw gwleidyddiaeth yn codi braw arnaf bellach. Llwyddodd y rhaglen i wneud gwleidyddiaeth yn hygyrch a'i theilwra ar gyfer nyrsio. Un o'r cyrsiau gorau yr wyf wedi'i ddilyn yn fy ngyrfa gyfan. Diolch yn fawr iawn. Rwy'n bwriadu bod yn ymwybodol o wleidyddiaeth ac yn fwy rhagweithiol yn y dyfodol.”

“Mae'n cynnig gwybodaeth a gweledigaeth ac yn grymuso. Mae wedi bod yn hanfodol wrth fireinio fy sgiliau ar faterion strategol, drwy ddangos goblygiadau fy ngwasanaeth a'm harweinyddiaeth yn lleol ac yn genedlaethol.”

## Sut i gadw lle:

E-bost: **policy.publicaffairs.wales@rcn.org.uk**

**Ffioedd y cwrs:** Ffi'r cwrs yw £400 a TAW, ac mae hyn yn cynnwys cofrestru ar y cwrs, deunyddiau'r cwrs, cinio a lluniaeth ysgafn.

**Canslo:** Os yw'r cynrychiolydd yn canslo ar ôl i'r archeb gael ei derbyn, bydd y cynrychiolydd yn gyfrifol am y ffi archebu lawn. Fodd bynnag, gall rhywun gymryd lle rhywun arall ar yr amod bod y Coleg Nyrsio Brenhinol yn ymwybodol o hyn ymlaen llaw a'u bod wedi cytuno i hynny.

@RCNWales

RCNWales

Defnyddir y delweddau gyda chaniatâd caredig Gwasanaeth Gwybodaeth i'r Cyhoedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru